**CYNGOR BRO MORGANNWG,**
**Y SWYDDFEYDD DINESIG, HEOL HOLTON,**
**Y BARRI CF63 4RU**

# HYSBYSIAD STATUDOL YNGHYLCH CYFUNO YSGOLION MEITHRIN A CHYNRADD TREGATWG O FIS MEDI 2016

**HYSBYSIR GYDA HYN**, yn unol ag adrannau 42 a 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Côd Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Bro Morgannwg, ar ôl ymgynghori â'r personau gofynnol, yn bwriadu dod ag Ysgol Feithrin Tregatwg, Heol Parc Victoria, Tregatwg, Y Barri CF63 2JS, i ben, a gwneud newid rheoledig i Ysgol Gynradd Tregatwg, Heol Parc Victoria, Tregatwg, Y Barri CF63 2JS, trwy estyn yr ystod oed o 4-11 i 3-11. Bydd hyn yn creu ysgol gyfrwng Saesneg 3-11 oed, gyda 420 o lefydd cynradd a 100 o lefydd meithrin i fechgyn a merched. Cynhelir y ddwy ysgol gan Gyngor Bro Morgannwg.

Bydd yr ysgol gyfunedig yn parhau i gael ei chynnal gan Gyngor Bro Morgannwg.

Bu Cyngor Bro Morgannwg yn cynnal cyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd, a barn Estyn, i'w weld ar wefan Bro Morgannwg, yn y cyfeiriad canlynol:
www.valeofglamorgan.gov.uk/cadoxtonschools

Y bwriad yw gweithredu'r cynnig ar 1af Medi 2016.

Bydd yr ysgol gyfunedig yn ysgol gymunedol.

Cyngor Bro Morgannwg fydd yr awdurdod derbyn. Y nifer derbyn ar gyfer disgyblion 4/5 oed yn yr ysgol newydd ym mis Medi 2016, y flwyddyn ysgol gyntaf pryd y gweithredir y cynigion, fydd 60, a bydd 100 o lefydd meithrin ar gael ar gyfer disgyblion 3/4 oed. Nid yw'r trefniadau derbyn yn darparu ar gyfer dethol yn ôl gallu (bandio disgyblion).

Capasiti'r ysgol gyfunedig fydd 420 o lefydd cynradd a 100 o lefydd meithrin. Bydd yr ysgol yn gweithredu ar draws safleoedd presennol ysgolion Meithrin a Chynradd Tregatwg, a hynny o dan un corff llywodraethu ac un pennaeth. Rhoddir lle yn yr ysgol gyfunedig i bob disgybl sy'n mynychu'r ddwy ysgol unigol ar hyn o bryd.

Bydd yr ysgol gyfunedig yn darparu ar gyfer 100 o lefydd meithrin a 420 o lefydd cynradd. Mae hyn yn cyfateb i nifer y llefydd sydd ar gael ar hyn o bryd yn ysgolion Meithrin a Chynradd Tregatwg. Ni fydd cyfanswm nifer y llefydd meithrin a chynradd sydd ar gael i blant yn cael ei newid o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Mae Trefniadau Teithio gan Ddysgwyr Cymru Gyfan yn nodi cymhwyster i dderbyn cludiant i'r ysgol os bydd disgyblion yn byw ymhellach na phellter cerdded o'u hysgol agosaf neu eu hysgol ddalgylch ddynodedig. Y diffiniad o

bellter cerdded yw dwy filltir i blant oed cynradd, a thair milltir yn yr oed uwchradd, a mesurir hynny drwy ddilyn y llwybr agosaf sydd ar gael. Nid yw'r cynnig hwn yn effeithio ar drefniadau, cymhwyster a hygyrchedd cludiant i'r ysgol.

Gall unrhyw un wrthwynebu’r cynigion hyn o fewn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl dyddiad eu cyhoeddi, sef erbyn 9 Mai 2016.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Jennifer Hill, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, Cyngor Bro Morgannwg, Provincial House, Heol Kendrick, Y Barri CF62 8BF neu ar e-bost at: JMJones@valeofglamorgan.gov.uk

Llofnod: 

Jennifer Hill, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau
11$^{ain}$ Ebrill 2016

**NODYN ESBONIADOL – nad yw'n rhan o'r hysbysiad statudol**

Bwriad y Cyngor yw darparu Ysgol Gynradd Gymunedol ddi-fwlch trwy gyfuno ysgolion Meithrin a Chynradd Tregatwg.

Bydd yr ysgol yn darparu 60 o lefydd fesul grŵp blwyddyn yn y cyfnod cynradd a 100 o lefydd yn y cyfnod meithrin. Mae'r nifer hwn yn cyfateb i nifer y llefydd sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd yn y ddwy ysgol bresennol. Capasiti'r ysgol fydd 420 o lefydd cynradd a 100 o lefydd meithrin. Ni fydd yr ysgol, felly, yn fwy nac yn llai na'r ddwy ysgol bresennol o ran nifer y llefydd a fydd ar gael i blant.

Byddai pennaeth parhaol Ysgol Gynradd Tregatwg yn parhau'n bennaeth ar yr ysgol gyfunedig. Byddai corff llywodraethu presennol yr ysgol gynradd yn parhau'n ffurfiol yn gorff llywodraethu ar yr ysgol gyfunedig. Gallai'r corff llywodraethu ddewis estyn nifer ei aelodau o 14 i 18 i gynnwys aelodau corff llywodraethu'r ysgol feithrin. Penderfyniad i'r corff llywodraethu fyddai hynny.

Bydd y manylion o ran sut bydd yr ysgol gyfunedig yn gweithredu ar draws dau safle, ei pholisïau a'i gweithdrefnau cyffredin a'i strwythurau staffio yn cael eu datblygu gan gorff llywodraethu a phennaeth yr ysgol gyfunedig.

Y Cyngor yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol. Ni fydd y trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgol gyfunedig yn newid o ganlyniad i'r cynnig, a bydd byw yn y dalgylch yn flaenoriaeth uchel i gael mynediad os bydd gormod o geisiadau.